

Eitem: 12

Teitl: Diweddariad Cyllid - Medi 2026

Camau angenrheidiol / Action required	Ar gyfer gwybodaeth a sicrwydd. Gofynnir i'r Bwrdd nodi sefyllfa ariannol mis Medi a chefnogi'r dull arfaethedig o reoli gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn.
Amseru / Timing	Bob chwarter
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd: • nodi sefyllfa ariannol mis Medi 2026, gan gynnwys y diffyg a ragwelir ar hyn o bryd o tua £134,000 ar ôl nodi arbedion a lliniariadau; • nodi y byddai cymhwyso'r addasiad o £42,000 i gostau les cymwys yn lleihau'r diffyg a ragwelir i tua £92,000 ac, os caiff y cais am gyllid cyfalaf system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) ei gymeradwyo, byddai'r diffyg dangosol yn lleihau eto i tua £52,000; a • chefnogi'r dull arfaethedig o gryfhau craffu gwariant a rheoli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.
Risg / Risk	Risg ariannol, weithredol, digidol a gweithlu.
Cyllid / Finance	Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol mis Medi 2026, y diffyg posibl ar ddiwedd y flwyddyn, yr arbedion a'r lliniariadau a nodwyd, y risgiau sy'n weddill a'r camau a gymerir i reoli gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn.
Amcan y Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Tyfu a gwella fel sefydliad.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Bwriedir i fformat yr adroddiad ariannol fod yn hygyrch ac yn dryloyw i gefnogi dealltwriaeth a chraffu effeithiol.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgarwch hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒

	Allanol: pobl, cymunedau a sefydliadau partner ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Jason Smith, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Diweddariad cyllid y bwrdd, Mai 2026; Diweddariad Ariannol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC), Gorffennaf 2026 ac ystyriaeth y Tîm Gweithredol ar gyfer datblygu sefyllfa 2026/27.
Awdur/ Author	Katie Holliday, Cyfarwyddwr Cyllid
Dyddiad / Date	07 Hydref 2026

Crynodeb gweithredol

Mae'r tri ffactor canlynol wedi effeithio ar ragolwg ariannol 2026/27:

- costau gallu arbenigol a gweithlu ychwanegol;
- cyweirio CRM hanfodol; a
- anghysondeb rhwng costau contract gwasanaeth a reolir gan Centreprise yn y gyllideb adnoddau a'r cyllid nad yw'n arian parod cysylltiedig. Daeth hyn y sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chefnogi'r trosglwyddiad y gofynnwyd amdano rhwng categorïau ariannu.

Byddai pob ffactor wedi gallu cael ei reoli drwy gamau pwrpasol yn ystod y flwyddyn. Gyda'i gilydd, maent wedi creu her fwy sylweddol ac wedi lleihau'r hyblygrwydd o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

Nododd ail ragolwg mis Gorffennaf ddiffyg posibl o £300,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd adolygiad manwl o wariant a chynlluniau cyflawni yn ddiweddarach arbedion a lliniariadau gwerth £166,000, sy'n lleihau'r diffyg a ragwelir ar hyn o bryd i tua £134,000.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caiff Llais gyflwyno cais am gyllid cyfalaf tuag at gostau cyweirio CRM cymwys, ynghyd â hyder rhesymol y bydd tua £40,000 yn cael ei gefnogi. Mae Llais hefyd wedi nodi tua £42,000 o gostau les cymwys, ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sefyllfa hon.

Ni chaiff dim un o'r addasiadau ei adlewyrchu yn y rhagolwg cyfredol. Byddai cymhwyso'r addasiad les yn lleihau'r diffyg i tua £92,000 ac, os caiff cyllid cyfalaf CRM ei gymeradwyo hefyd, i tua £52,000. Dyma'r sefyllfaoedd cynllunio, yn hytrach na'r

sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd.

Mae'r sefyllfa yn un heriol, ond yn un y mae modd ei rheoli.

Bydd gwariant arfaethedig yn parhau i gael ei graffu, gan gydnabod bod rhai camau yn lleihau gallu neu'n gohirio gweithgarwch. Caiff gwasanaethau allweddol, rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol, rheolyddion hanfodol, seiberddiogelwch a chyweirio CRM allweddol eu cynnal.

D.S. - Ceir eglurhad o'r termau ariannol a chyfrifyddu a ddefnyddir yn y papur hwn yn Atodiad 1.

Sefyllfa adrodd

Perfformiad ariannol mis Medi ac amrywiant arwyddocaol

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad cyffredinol Llais.

Sefyllfa Mis Medi	Sefyllfa / sylwadau
Dyraniad a gymeradwywyd	£8,648,000 Mae hyn yn cynnwys £8,281,000 o gyllid adnoddau a £367,000 o gyllid nad yw'n arian parod. Mae'r cyllid nad yw'n arian parod wedi'i gyfyngu i gostau cyfrifyddu cymwys ac nid yw ar gael i wrthbwysu'r diffyg cyllideb adnoddau a ragwelir.
Gwariant gwirioneddol a chyllideb sydd wedi'i phroffilio i 30 Medi	Gwariant gwirioneddol: £4,214,000 Cyllideb hyd yn hyn: £4,245,000 Amrywiant: tua £31,000 o warged
Alldro adnoddau blynyddol a ragwelir diweddaraf	Cyllideb adnoddau: £8,281,000 Gwariant adnoddau a ragwelir: £8,415,000 Diffyg a ragwelir: tua £134,000
Sefyllfaoedd rhagweld cyllideb nad yw'n arian parod a chyllideb adnoddau	Mae'r rhagolwg ariannu ar gyfer y gyllideb nad yw'n arian parod yn dangos gwarged o tua £183,000, yn bennaf gan fod costau Centreprise bellach yn cael eu talu o'r gyllideb adnoddau ac

	ni chytunwyd ar y trosglwyddiad cyfatebol o gyllid nad yw'n arian parod i adnoddau.
--	---

	Mae'r rhagolwg adnoddau yn dangos diffyg o tua £134,000, sy'n adlewyrchu'r materion ehangach a amlinellir yn y papur hwn.
--	---

Mae'r rhagolwg a ddiweddarwyd yn adlewyrchu'r arbedion a lliniariadau gwerth £166,000 a nodwyd eisoes. Mae hefyd yn gwahaniaethu arbedion gwirioneddol a phwysau oddi wrth y gwahaniaeth mewn amser a gwariant sydd eisoes wedi'i ymrwymo ond heb ei adlewyrchu yn y cyfrifon eisoes.

Pethau i'w nodi yn y ffigurau i fis Medi 2026

Digidol, Data a Thechnoleg

Disgwylir i'r gwaith cyweirio CRM gael ei gyflawni yn bennaf yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol. Nid yw'r gost ychwanegol felly'n effeithio'n sylweddol ar sefyllfa gwariant mis Medi ond caiff ei chynnwys yn y rhagolwg hyd at ddiwedd y flwyddyn.

Tanwariant

Nid yw'r tanwariant o tua £31,000 ddiwedd mis Medi yn awgrymu tanwariant disgwylidig ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r rhagolwg a'r proffil cyllideb yn ystod y flwyddyn wedi'i diweddarau gan ddefnyddio gwariant gwirioneddol hyd yma ac amseru disgwylidig diweddaraf gweithgarwch arfaethedig; nid yw hyn yn newid y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd.

Yn seiliedig ar gynlluniau cyflawni cyfredol a chostau disgwylidig o fis Hydref i fis Mawrth, gan gynnwys gwariant a ysgwyddir tuag at ran olaf y flwyddyn, mae'r gwariant a ragwelir yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb adnoddau sydd ar gael oni bai y caiff gweithgareddau arfaethedig eraill eu lleihau neu eu gohirio.

Sut y mae'r pwysau wedi datblygu

Cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb fantoledig ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd. Mae tri ffactor arwyddocaol wedi effeithio ar y rhagolwg ers hynny.

Gweithlu

Mae costau gallu arbenigol a gweithlu ychwanegol wedi deillio o staff asiantaeth ar gyfer absenoldebau hirdymor oherwydd salwch lle na allai fod yn ddiogel peidio â llenwi swyddi, staff asiantaeth wrth i werthusiad o swyddi gael ei gwblhau, a staff ymgynghori TG arbenigol a dalwyd yn gynharach yn y flwyddyn i ddatblygu'r strategaeth Ddigidol.

Daeth y gwaith ymgynghori TG i ben ym mis Awst 2026, a daeth y gwaith gwerthuso disgrifiad swydd Band 4, sy'n berthnasol i sawl swydd sy'n cael ei chyflawni gan weithwyr asiantaeth, i ben ar 7 Hydref. Gall recriwtio ar gyfer y swyddi parhaol fynd rhagddo nawr. Caiff staff asiantaeth eu rheoli yn ystod y cyfnod pontio. Disgwylir i benodiadau sylweddol fynd rhagddynt yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Dylai symud tuag at benodiadau parhaol leihau'r angen i ddibynnu ar asiantaethau. Fodd bynnag, gall greu rhagor o gostau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb oherwydd ffioedd trosglwyddo asiantaeth neu benodiadau y tu hwnt i waelod y band cyflog perthnasol.

Gwaith cyweirio hanfodol CRM

Nododd brawf iechyd ar y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) £70,000 o waith cyweirio hanfodol yn ogystal â'r £50,000 yr oedd eisoes wedi'i gyllidebu.

Darparwr Gwasanaeth a Reolir (Centreprise)

Mae cytundeb gwasanaeth a reolir Centreprise yn cyfuno tair elfen:

- cyfarpar ar les,
- y ddesg gymorth TG, a
- meddalwedd.

Pan ddechreuodd y cytundeb, nid oedd modd nodi cost pob elfen ar wahân. Bryd hynny, roedd y cytundeb llawn yn cael ei gynnwys yng nghyllideb nad yw'n arian parod Llais, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer costau cyfrifyddu penodol yn hytrach na gwariant o ddydd i ddydd sy'n cael ei ariannu o'r gyllideb adnoddau.

Cafodd y cyfarpar ar les ei ddileu o'r contract gan nad oedd yn darparu gwerth am arian, a phrynwyd gliniaduron newydd ym mis Mawrth 2026. Ar ôl i'r elfen les gael ei dileu, nid oedd bellach yn bosibl trin y costau meddalwedd a desg gymorth a oedd yn weddill fel rhai heb fod yn ariannol ac felly roedd rhaid talu amdanynt o'r gyllideb adnoddau. Byddai'r newid hwn mewn statws wedi dod i'r amlwg mewn unrhyw achos pan fyddai'r les, meddalwedd ac elfennau gwasanaeth wedi'u nodi ar wahân a'u priso dan gytundeb yn y dyfodol.

Cafodd Llywodraeth Cymru wybod am sefyllfa Centreprise ym mis Chwefror 2026, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, pan gyflwynodd Llais gais am ostyngiad cyfatebol yn ei gyllideb nad yw'n arian parod a chynnydd yn ei gyllideb adnoddau.

Awgrymodd trafodaethau dechreuol y gallai'r pwysau gael ei reoli drwy'r addasiad hwn. Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cefnogi'r cais. Daeth hyn ar ôl trosglwyddo Llais o'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ac i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â phwysau ariannu ehangach ar ôl y newid mewn gweinyddwyr.

Mae'r pwysau sy'n deillio felly'n adlewyrchu newid mewn sefyllfa ariannu yn hytrach na mater a gafodd ei nodi ar ôl cytuno ar gyllideb 2026/27.

Erbyn yr adeg y cafodd cyllideb 2026/27 ei pharatoi, roedd costau meddalwedd a desg gymorth Centreprise a oedd yn weddill yn cael eu hadnabod fel costau adnoddau a chawsant eu cynnwys yn y gyllideb gwariant adnoddau.

Nid ydynt felly'n ymddangos fel pwysau ar wahân yn erbyn cyllideb adnoddau Cyfnod 6. Mae'r effaith i'w gweld yn hytrach yn y sefyllfa nad yw'n arian parod, sy'n rhagweld gwarged o tua £183,000 oherwydd nas cytunwyd ar y gostyngiad cyfatebol mewn cyllid nad yw'n arian parod a chynnydd mewn cyllid adnoddau.

Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â symudiadau eraill ar draws y sefydliad, wedi cyfrannu at y pwysau adnoddau cyffredinol a ragwelir. Y gwerth o tua £134,000 yw'r diffyg net a ragwelir ar ôl i'r holl ragolygon gwariant, arbedion a lliniariadau cyfredol gael eu hystyried.

Ni ellir ei briodoli'n ddibynadwy i unrhyw ffactor unigol gan fod anghysondeb ariannu Centreprise, gwaith cyweirio hanfodol y CRM, costau gweithlu a symudiadau eraill yn rhyngweithio ar draws llinellau cyllideb, wrth i'r arbedion a'r lliniariadau a nodwyd leihau'r sefyllfa ar draws y sefydliad yn hytrach na chael eu dyrannu yn erbyn pwysau unigol.

Arbedion, lliniariadau a'r sefyllfa a ragwelir

Nododd adolygiad manwl o wariant a chynlluniau cyflawni werth £166,000 o arbedion a lliniariadau, sy'n lleihau'r diffyg posibl ar gyfer diwedd y flwyddyn o £300,000 i tua £134,000.

Nid yw'r £166,000 yn gyllid ychwanegol; mae'n cynrychioli gostyngiadau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y rhagolwg diweddaraf drwy reoli swyddi ac arbedion eraill o ran y gweithlu, gweithgarwch gwella a datblygu a ohiriwyd, costau gweithredu is a ragwelir

ac effeithlonrwydd cytundeb.

Mae'r tua £134,000 felly'n cynrychioli'r sefyllfa ragweld gyfredol, ddarbodus cyn i Llais gymhwyso'r addasiad les posibl a Llywodraeth Cymru yn cadarnhau unrhyw gyllid cyfalaf CRM.

Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar adolygiad manwl o wariant gwirioneddol, swyddi gwag, ymrwymadau presennol a chynlluniau cyflawni cyfredol, ac a gaiff ei gefnogi gan ragolygon a ddiweddarwyd a chatau rheoli y gellir eu nodi.

Mae rhai camau yn lleihau gallu Llais neu'n gohirio gwaith arfaethedig ac nid ydynt yn datrys y sefyllfa gyllideb ailadroddus. Efallai y bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r sefydliad i wrando ar bobl a chymunedau, cynrychioli eu buddiannau a chyflawni gwelliannau arfaethedig.

Symudiad a ragwelir	Swm	Statws a sicrwydd
Pwysau dechreuol a ragwelir	£300,000	Nodwyd drwy ail ragolwg mis Gorffennaf a'i ysgogi'n bennaf gan y tri digwyddiad risg a ddisgrifir yn y papur hwn.
Arbedion a lliniariadau a nodwyd	(£166,000)	Arbedion o ran gweithlu, gweithgarwch a ohiriwyd, costau gweithredu is ac effeithlonrwydd contract.
Pwysau a ragwelir ar ôl nodi lliniariadau	Tua £134,000	Y diffyg a ragwelir ar hyn o bryd ar ôl arbedion a lliniariadau a nodwyd, cyn i Llais gymhwyso'r addasiad les a chyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau unrhyw gyllid cyfalaf CRM.
Cais am gyllid cyfalaf posibl i Lywodraeth Cymru	(£40,000)	Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caiff Llais gyflwyno cais am gyllid cyfalaf ar gyfer costau cyweirio CRM hanfodol. Bydd cais am tua £40,000 yn cael ei gyflwyno i'w ystyried. Ni chafwyd unrhyw gymeradwyaeth hyd yma.
Sut y mae'r gyllideb yn trin costau les cymwys	(£42,000)	Mae Llais wedi nodi tua £42,000 o gostau les cymwys yn seiliedig ar y trefniadau les isorweddol a'r gofynion

		cyllideb perthnasol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi sefyllfa Llais.
Diffyg 2026/27 dangosol ar ôl yr addasiad les ac, os caiff ei gymeradwyo, cyllid cyfalaf CRM	£52,000	Byddai cymhwyso'r addasiad o £42,000 ar gyfer costau les cymwys yn lleihau'r diffyg a ragwelir ar hyn o bryd i tua £92,000. Os caiff y cais am gyllid cyfalaf CRM gwerth £40,000 ei gymeradwyo hefyd, byddai'r diffyg dangosol yn lleihau eto i tua £52,000.

Mae costau gweithlu wedi cyfrannu at y pwysau a ragwelir, yn enwedig oherwydd staff asiantaeth, gallu arbenigol a'r pontio i benodiadau parhaol. Mae'r rhagolwg diweddaraf ar gyfer costau staff yn adlewyrchu proffilio a ddiweddarwyd, gwariant gwirioneddol hyd yma, rhagdybiaethau ynghylch swyddi gwag a lliniariadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. Dylai'r llinell costau staff felly gael ei darllen yn rhan o'r sefyllfa ragweld gyffredinol yn hytrach na mesur unigol syml o'r pwysau gweithlu isorweddol.

Risgiau ac ymateb rheoli

Mae'r prif ansicrwydd sy'n weddill yn gysylltiedig â sefyllfa'r gweithlu.

Mae'r ymgynghori TG arbenigol wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae'r cyweirio CRM a chytundeb Centreprise yn parhau'n hanfodol ar gyfer parhad gwasanaeth, seiberddiogelwch a mynediad at systemau, felly ni ellir eu dileu o'r rhagolwg yn syml. Mae hyn yn caniatáu ychydig bach iawn o hyblygrwydd i fodloni pwysau pellach yn ystod gweddill y flwyddyn.

Dylai pob ymrwymiad sy'n weddill gael ei ystyried yn erbyn blaenoriaethau Llais a'r sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys gwariant o fewn cyllidebau a gymeradwywyd neu feysydd y rhagwelir tanwariant ar eu cyfer. Cyn i waith gael ei gomisiynu, dylid cael asesiad cymesur o'r hyn sy'n ofynnol, y gost lawn, y canlyniadau bwriadedig, y capasiti sydd ei angen a goblygiadau gohirio. Nid yw hyn ynghylch lleihau cyllidebau'r dyfodol lle bo tanwariant yn dod i'r amlwg eleni. Mae ynghylch cyfeirio adnoddau at brif flaenoriaethau'r sefydliad.

Nid bwriad y dull hwn yw rhewi gwariant yn gyfan gwbl nac atal gweithgarwch y cytunwyd arno rhag bwrw ymlaen.

Bydd gwasanaethau allweddol, rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol,

rheolyddion hanfodol, seiberddiogelwch a chyweirio CRM allweddol yn parhau, a chaiff gwariant ei ohirio'n unig le y gellir gwneud hyn heb greu risg gweithredol mwy, gohirio cyflawni allweddol neu gynyddu costau yn y dyfodol.

Rheolaeth ariannol a sicrwydd

Mae'r adran gyllid yn gweithio gyda deiliaid cyllideb i brofi'r rhagolwg diweddaraf yn erbyn cynlluniau cyflawni, ymrwymadau sy'n weddill, swyddi gwag ac amseru disgwylidig gwariant, yn hytrach na dibynnu'n unig ar y sefyllfa gwariant hyd yn hyn a ddangosir yn y cyfrifon.

Bydd yr adran gyllid yn parhau i fonitro'r rhagdybiaethau isorweddol a gwreiddio costau gweithlu sy'n dod i'r amlwg pan fo digon o sicrwydd dros eu gwerth a'u hamseru.

Bydd arian parod a chymorth grant yn parhau i gael eu monitro yn erbyn y proffil a gymeradwywyd fel rhan o'r rheoli ariannol rheolaidd.

Byddwn ni'n parhau i sicrhau nad oes unrhyw swydd barhaol newydd nac ymrwymiad cytundebol ailadroddus yn cael eu gwneud heb ffynhonnell ariannu ailadroddus. Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r pwysau a'r lliniariadau yn y papur hwn yn parhau'n ddarostyngedig i ofynion rheoli ariannol, caffael a chymeradwyo a sefydlwyd gan y sefydliad.

Bydd yr adran gyllid yn cyfeirio unrhyw elfen o'r rhagolwg sy'n gwaethygu, newid mewn rhagdybiaethau, diffyg cytundeb gan Lywodraeth Cymru neu risg i gyflawni hanfodol ac yn gwneud hynny'n brydlon. Caiff hyn ei adrodd drwy'r Tîm Gweithredol a'r llwybr sicrwydd Bwrdd priodol.

Y camau nesaf

- Cwblhau'r adolygiadau deiliaid cyllidebau wyneb yn wyneb sydd wedi'u trefnu rhwng 8 a 20 Hydref, gan brofi ymrwymadau a gwariant arfaethedig yn erbyn blaenoriaethau cyflawni.
- Defnyddio cyfarfod y Tîm Gweithredol ar 22 Hydref i adolygu'r rhagolwg a ddiweddarwyd, y rhagdybiaethau sy'n ei gefnogi a'r risgiau sy'n weddill hyd at ddiwedd y flwyddyn.
- Cwblhau'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf tuag at gostau cyweirio CRM cymwys.

Edrych tua'r dyfodol - 2027/28

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd angen i gynllun 2027/28 adlewyrchu cronfa gostau

isorweddol y sefydliad yn hytrach na rhagdybio y bydd yr arbedion swyddi neu'r cronfeydd wrth gefn heb eu defnyddio yn parhau i ddarparu hyblygrwydd ariannol.

Mae'r pwysau a ddisgrifir yn y papur hwn yn adlewyrchu dealltwriaeth gliriach o'r systemau, y seilwaith a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni'n effeithiol, ac o gronfa gost ailadroddus, isorweddol y sefydliad.

Y cam pwysig nesaf yw dod â gweithlu, cyflawni a chynllunio ariannol ynghyd, wrth gydnabod y bydd y strategaeth sefydliadol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn dylanwadu ar ba mor gyflym y gellir cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer 2027/28 a'u trosi yn gynlluniau y gellir eu cyflawni ac y mae costau llawn ar eu cyfer.

Dyma'r blaenoriaethau ymarferol:

- cynllunio ar gyfer cost lawn y penderfyniadau gweithlu, gan gynnwys ffioedd trosglwyddo a phwyntiau penodi realistig;
- sefydlu amserlen gynllunio sy'n cael ei arwain gan aelodau Gweithredol, a'r tîm ehangach yn ymgysylltu, er mwyn i flaenoriaethau cyflawni a chostau dangosol gael eu datblygu cyn gynted ag y mae'r strategaeth yn caniatáu; a'i
- gwneud yn ofynnol i weithgarwch sylweddol bennu'r cwmpas, canlyniadau, allbynnau, perchnogaeth, capasiti, amserlen a chost oes.

Dylai'r trefniadau hyn gysylltu â'r Gweithdrefnau Rheoli Ariannol diwygiedig a'r broses cynllunio cyflawni blynyddol.

Casgliad ac argymhellion

Yn gyffredinol, mae dal modd rheoli'r sefyllfa, ar yr amod bod deiliaid cyllidebau yn cydweithio i nodi lle y gellir rhyddhau cyllidebau a chytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cyflawni arfaethedig.

Bydd cytundebau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gwasanaethau craidd hefyd yn parhau i gael eu craffu i nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion yn ystod rhan olaf 2026/27 ac yn y blynyddoedd sydd i ddod, wrth sicrhau bod gwasanaethau hanfodol a gwydnwch gweithredol yn cael eu cynnal.

Gofynnir i'r Bwrdd:

- nodi sefyllfa ariannol mis Medi, y £166,000 o arbedion a lliniariadau a nodwyd, a'r risgiau sy'n weddill i'r rhagolwg diwedd y flwyddyn;
- nodi y byddai cymhwyso'r addasiad o £42,000 i gostau les cymwys yn lleihau'r diffyg a ragwelir i tua £92,000 ac, os caiff y cais am gyllid cyfalaf CRM ei gymeradwyo, byddai'r diffyg dangosol yn lleihau eto i tua £52,000;

- gefnogi craffu wedi'i gryfhau o'r gwariant sy'n weddill, gan gynnwys cyllidebau a gymeradwywyd a meysydd y rhagwelir tanwariant ar eu cyfer; a
- nodi'r camau a gymerir i reoli'r sefyllfa a chryfhau cynllunio ar gyfer 2027/28.

Atodiad 1: Arweiniad ar dermau ariannol

Term	Ystyr yn y papur hwn
Cyllid adnoddau	Cyllid sydd ar gael ar gyfer costau cynnal o ddydd i ddydd, megis staff, gwasanaethau, meddalwedd a gwariant gweithredu arall.
Cyllid nad yw'n arian parod	Cyllid a ddarperir ar gyfer costau cyfrifyddu penodol, megis dibrisio neu gostau sy'n gysylltiedig yn bennaf â les. Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyffredinol o ddydd i ddydd.
Cyllid cyfalaf	Cyllid ar gyfer buddsoddi cymwys mewn asedau neu systemau sy'n darparu budd y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer costau cynnal arferol.
Proffil cyllideb	Sut y caiff y gyllideb flynyddol ei rhannu rhwng misoedd y flwyddyn, yn seiliedig ar bryd y disgwylir gwariant.
Rhagolwg	Yr amcangyfrif diweddaraf o'r sefyllfa ariannol a ddisgwylir ar ddiwedd y flwyddyn, gan ddefnyddio gwariant gwirioneddol hyd yma a chostau'r dyfodol a ragwelir.
Alldro	Y sefyllfa ariannol derfynol ar ddiwedd y flwyddyn. Alldro a ragwelir yw'r amcangyfrif cyfredol o'r sefyllfa derfynol honno.
Diffyg	Gwerth y swm y mae'r gwariant a ragwelir yn fwy na'r cyllid sydd ar gael.
Gwarged neu danwariant	Gwerth y swm y mae'r gwariant yn llai na'r cyllid neu'r gyllideb sydd ar gael. Nid yw tanwariant yn ystod y flwyddyn yn golygu o'r rheidrwydd y bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn.
Amrywiant	Y gwahaniaeth rhwng gwariant gwirioneddol neu a ragwelir a'r gyllideb berthnasol.
Arbedion a lliniariadau	Camau sy'n lleihau gwariant a ragwelir neu'n helpu i reoli pwysau ariannol, gan gynnwys costau llai, swyddi gwag, effeithlonrwydd neu weithgarwch a ohiriwyd.
Gwariant a ymrwymwyd	Costau y disgwylir i Llais eu talu yn gytundebol neu'n weithredol, hyd oed os nad ydynt wedi ymddangos yn y cyfrifon eisoes.
Costau neu gyllid ailadroddus	Cost neu ffynhonnell ariannu y disgwylir iddi barhau ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol, yn hytrach na bodoli fel eitem untro.